

## PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

(Multi-Location Meeting - Council Chamber, Port Talbot & Microsoft Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:**

**Dydd Mercher, 17 Mai 2023**

**Cadeirydd:** Cynghorydd P.Rogers

**Cynghorwyr:** T.Bowen, C.Clement-Williams, C.Galsworthy, J.Henton, J.Jones, R.G.Jones, S.Paddison, C.Phillips, S.Pursey, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac M.Spooner

**Swyddogion sy'n Bresennol:** K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, C.Griffiths, H.Jones, C.John a/ac T.Davies

**Gwahoddedigion y Cabinet:** Cynghorwyr W.F.Griffiths, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins, S.Jones, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, D.M.Peters a/ac J.Hale

**Cymru Gynnes** Katie Cooke

---

### 1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor.

### 2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Karen Jones - Parthed Eitem 5 o bapurau'r Cabinet - Rhoi Indemniad Swyddog i Karen Jones mewn perthynas ag Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru - gan mai hi yw'r swyddog sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad. Datganodd Karen Jones fudd rhagfarnol yn y cyfarfod a gadawodd y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem.

### 3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd y cofnodion canlynol fel cofnod cywir:

- 10 Mawrth 2023
- 5 Ebrill 2023

#### 4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

##### Rhoi Indemniad Swyddog i Karen Jones mewn perthynas ag Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru

(Ailddatganodd Karen Jones ei budd a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig)

Diweddarwyd yr aelodau ar y cais i roi indemniad swyddog i'r Prif Weithredwr yng ngoleuni ei rôl fel cyfarwyddwr Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r swydd yn derbyn tâl am y gwaith sydd ynghlwm wrthi Esboniodd swyddogion na fyddai tâl yn cael ei roi ar gyfer y swydd ac y byddai'r Prif Weithredwr yn cyflawni'r rôl ar sail wirfoddol oherwydd ei harbenigedd.

Yn dilyn craffu, cafodd yr adroddiad gefnogaeth i fynd gerbron y Cabinet.

##### Archwilio Cymru - Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol Sicrwydd ac Asesu Risgiau

Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd gan y pwyllgor craffu gyfres o ymholiadau ar gyfer yr eitem hon, fodd bynnag, nodwyd bod yr Aelod Cabinet perthnasol yn dymuno cyflwyno'r adroddiad ar lafar i'r pwyllgor.

##### Diweddariad mewn perthynas â chyflwyno Cynllun Cymorth Caledi Castell-nedd Port Talbot

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau mewn perthynas â chyflwyno Cynllun Cymorth Caledi Castell-nedd Port Talbot, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd Katie Cook o Gymru Gynnes yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Cafwyd trafodaethau ynghylch cysyniad cychwynnol y Cynllun Cymorth Caledi. Nodwyd bod aelodau wedi gofyn am y cynllun yn wreiddiol i gefnogi'r cyhoedd a oedd yn derbyn budd-daliadau a hefyd etholwyr sy'n gweithio y mae'r argyfwng costau byw cyfredol yn effeithio arnynt. Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd rhoi ystyriaeth i gael ymagwedd helaethach o ran y meini prawf i sicrhau bod mwy o gwmpas mewn perthynas â'r rheini y byddai angen mwy o gefnogaeth arnynt.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd iddynt dderbyn dadansoddiad fesul ward o'r rheini sydd wedi gofyn am y cyllid.

Gofynnodd yr aelodau hefyd a ellid darparu taflenni Cymru Gynnes i aelodau i'w rhannu â'u hetholwyr.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 5. **EITEMAU BRYD**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

TRAILER\_SECTION>

## **CADEIRYDD**